

15/12/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Ar ddiwedd tymor prysur a llwyddiannus, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol eto eleni. Rydym fel staff wedi gwerthfawrogi'r negeseuon o gefnogaeth a'r diolch rydym wedi eu derbyn gan ein rhieni yn ystod cyfnod sy'n parhau yn heriol i bob un ohonom.

Mae yna ormod o lwyddiannau disgyblion i'w rhestru, ond mae brwdfrydedd ac ymdrechion cyson ein disgyblion i'w ganmol unwaith eto! Mae eu cyfraniad at fywyd yr ysgol yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan eu bod yn mynychu'n ddyddiol gyda chwarteisi, hiwmor a gwên! Maent yn destun balchder i ni gyd!

Mae **adroddiad interim eich plentyn** wedi ei rannu gyda'ch plentyn ddoe. Os ydych am drafod adroddiad eich plentyn, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni. Mae rhieni disgyblion blwyddyn 7 hefyd yn mynd i dderbyn gwybodaeth am gyrhaeddiad eu plentyn yn dilyn y profion CATs yn gynt yn y tymor.

Mae'r bartneriaeth ysgol a chartref yn allweddol i sicrhau llwyddiant eich plentyn, sydd yn flaenoriaeth i ni gyd. Diolch yn fawr iawn i'r rhai ohonoch sydd eisoes wedi llenwi'r holiadur rhieni diweddar. Os nad ydych wedi cael cyfle i'w gwblhau, a fyddech chi mor garedig a llenwi'r holiadur cyn ddiwedd y tymor? Plîs dilynwch y ddolen yma: <https://bit.ly/3lglL9> . Mae'n fwriad gan yr ysgol i ffurfio Pwyllgor Llais Rhieni yn y flwyddyn newydd er mwyn ein helpu i lywio cyfeiriad strategol yr ysgol. Os oes diddordeb gennych i fod yn rhan o Bwyllgor Llais ein Rieni, danfonwch e-bost yn mynegi eich diddordeb i Mrs Emma Howells (Pennaeth Cynorthwyol Dros Dro) ar HowellsE32@hwbcymru.net .

Byddwn yn gorffen yn gynt ar ddydd Gwener yr 17eg a bydd y bysys ysgol yn gadael am 13:45 i gludo disgyblion adref. Bydd llythyr yn eich cyraedd yfory gyda manylion llawn am drefniadau dychwelyd ym mis Ionawr.

Ga i ddymuno Nadolig Llawen a diogel i chi a Blwyddyn Newydd yn llawn gobaith a llwyddiant!

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth: Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales